



Annwyl Riant/ Warchodwr,

### **Pori Drwy Stori- Sialens Rhigymau**

Mae Pori Drwy Stori yn rhaglen ddwyieithog a chyffrous wedi'i hanelu at gefnogi llythrennedd plant y dosbarth Derbyn. Mae'r rhaglen yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth a chartref gan annog rhieni i barhau â'u rôl hanfodol fel partneriaid wrth ddysgu eu plant. Cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i chyflwyno gan Booktrust Cymru ac fe'i hariannir gan Lywodraeth Cymru.

Mae tair prif elfen i'r rhaglen, un elfen ar gyfer pob un o dymhorau'r ysgol; mae pob elfen yn cynnwys cyfres o adnoddau a gaiff eu hanfon i ysgolion, i'w defnyddio yn y dosbarth ac i'w hanfon gartref i rieni eu defnyddio gyda'u plant gartref. Y tymor hwn, y ffocws yw'r Sialens Rhigwm (the Rhyme Challenge), a'r nod yw i feithrin hoffter o farddoniaeth a rhigymau gynnar gan hyrwyddo manteision dysgu gyda'ch plentyn. Mae'r pecyn amgaaedig yn cynnwys llythyr o esboniad a phoster A4 o'r rhigymau Cymraeg a'r bwriad yw i fwrw ati i ddysgu'r rhigymau yn y dosbarth.

Fel mae'n digwydd mae'r plant eisoes wedi dysgu yn y dosbarthiadau rhai o'r rhigymau, ond gan fod nifer ohonynt yn rhai traddodiadol yn aml mae pobl yn dysgu geiriau gwahanol i'w gilydd! Bydd y plant felly yn dilyn geiriau'r rhigymau ar y daflen. Mae yna wefan i gyd-fynd â'r pecyn sef [www.poridrwestori.org.uk](http://www.poridrwestori.org.uk). Mae'r wefan yn adnodd ardderchog gyda gweithgareddau darllen o bob math yn y Gymraeg a'r Saesneg; syniadau am lyfrau a llyfrau rhyngweithiol. Mae'n bosib hefyd i wrando ar y caneuon a'r rhigymau amrywiol trwy ddilyn y linc <https://www.poridrwestori.org.uk/cy/audio-rhymes/>.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad,

Rhian Sennitt